# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 15 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Swyddfeydd Post Gwledig

**C11 Mick Bates:** Pa sylwadau a wnaeth Prif Weinidog Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghylch mesurau i helpu sicrhau parhad swyddfeydd post gwledig yng Nghymru? (OAQ11346)

**Prif Weinidog Cymru**: Er nad wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, yr wyf wedi mynegi ein pryderon wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy. Yr wyf yn falch o weld bod dwy swydd benodol wedi eu creu ar gyfer gogledd a de Cymru er mwyn canfod olynwyr i bostfeistri neu bostfeistresi sydd yn ymddeol ac yn cael trafferth i sicrhau dyfodol hirdymor i'w his-swyddfeydd post.

### Cydlynu Polisi yng Ngogledd Cymru

**C12 Ann Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch cydlynu polisi yng ngogledd Cymru? (OAQ11329) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Swyddfeydd Post Gwledig

**C13 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn ddiweddar ynghylch parhad rhwydwaith swyddfa'r post yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ11348)

**Prif Weinidog Cymru**: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, ond yr wyf wedi mynegi ein pryderon wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy, ac wrth Graham Carter, cadeirydd bwrdd ymgynghorol Consignia yng Nghymru.

### Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol (Datblygu Polisi)

**C14 Elin Jones:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu polisi er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000'? (OAQ11343)

**Prif Weinidog Cymru**: Mae'r adroddiad perfformiad yn cofnodi'r canlyniadau a gafwyd yn sgîl prif raglenni a gweithgareddau'r Cynulliad, o'u cymharu â chynlluniau a thargedau. Nid yw'n gosod casgliadau nac argymhellion. Mae'n darparu meincnod ar fy nghyfer i, fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet a Phwyllgorau i archwilio rhaglenni unigol. Ochr yn ochr ag arfau eraill, bydd yn cyfrannu at gryfhau ein hasesiad o'r canlyniadau a gyflawnwyd yn sgîl polisïau'r Cynulliad.

### Datblygu Polisi (Creu Swyddi)

**C15 Ieuan Wyn Jones:** Pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd i gydlynu'r gwaith o ddatblygu polisi yn y Cynulliad Cenedlaethol, a thrwy hynny gyfrannu at greu swyddi newydd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru? (OAQ11344)

**Prif Weinidog Cymru**: Bydd dyrannu cronfeydd strwythurol Ewrop yn un o'r prif ffactorau a fydd yn cyfrannu at gynorthwyo'r broses o greu swyddi yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Nod ein rhaglen arloesol, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol allgáu cymdeithasol, anfantais gymdeithasol a diweithdra yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Caiff y rhaglen ei sbarduno gan y gymuned a bydd yn cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol, gan gynnwys mudiadau yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat, gan gynnwys busnesau bach. Bydd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, yr ymgynghorir yn ei chylch ar hyn o bryd, yn darparu strategaeth gyffredinol sydd yn anelu tuag at adfywio cymunedau a chreu swyddi.

**Datblygu Strategaeth Gyflogaeth**

**C16 Cynog Dafis:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd polisi, sut y mae Prif Weinidog Cymru yn ceisio sicrhau bod strategaeth gyflogaeth yn cael ei datblygu a fydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd Cymru? (OAQ11336) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol (Mesurau Newydd)**

**C17 David Lloyd:** A fydd unrhyw fesurau newydd yn cael eu cyflwyno yn dilyn canfyddiadau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000'? (OAQ11345) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**

**C18 Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru fynychu cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd? (OAQ11350)

**Prif Weinidog Cymru**: Fy mwriad ar hyn o bryd yw mynychu'r cyfarfod.

**Rôl Dirprwy Weinidogion y Cynulliad**

**C19 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar rôl Dirprwy Weinidogion y Cynulliad? (OAQ11333) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Materion Trawsbynciol ym Mholisïau'r Cynulliad**

**C20 Janet Ryder:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd datblygu polisi, sut y mae Prif Weinidog Cymru yn asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru wrth geisio sicrhau bod materion trawsbynciol yn rhan annatod o holl bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11341) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cymorth Cymdeithasol ac Economaidd i Gymunedau**

**C21 Dafydd Wigley:** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi, pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd i sicrhau bod y cymunedau y mae arnynt angen y cymorth cymdeithasol ac economaidd mwyaf yn ei gael? (OAQ11335) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymweliadau ag Atyniadau Twristaidd**

**C22 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw ymweliadau diweddar ag atyniadau twristaidd ledled Cymru yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weinidog Cymru? (OAQ11334)

**Prif Weinidog Cymru**: Ymwelais yn ddiweddar â Sŵ Môr Môn, Llanberis, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Neuadd Middleton, Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan a Rhosili yn rhinwedd fy swydd. Cefais drafodaethau ynghylch problemau'r diwydiant twristiaeth yn ystod fy ymweliadau diweddar â Chastell Carreg Cennen, Aberglasni, llwybr arfordirol Sir Benfro, pyllau Bosherton, llyn Gwernan ac aber Mawddach.

Bu Dirprwy Brif Weinidog Cymru ym Machynlleth, Portmeirion, ogofâu Dan yr Ogof, Oakwood, Carreg Cennen, Cilgeti a'r Drenewydd er mwyn ymweld ag atyniadau twristaidd a chwrdd â swyddogion sydd yn gweithio ym myd twristiaeth.

**Mesurau Cyllideb i Helpu Pobl sydd yn Agored i Niwed**

**C23 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru a'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch mesurau cyllideb diweddar sydd â'r nod o helpu pobl sydd yn agored i niwed yng Nghymru? (OAQ11331) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynllun Datblygu Cynaliadwy (Darparu Fframwaith Holl-gynhwysol)**

**C24 Pauline Jarman:** Pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd i sicrhau bod y cynllun datblygu cynaliadwy yn darparu fframwaith holl-gynhwysol ar gyfer pob maes datblygu polisi yn y Cynulliad? (OAQ11342) ***Tynnwyd yn ôl.***